# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **9 Mawrth 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn: Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ymateb drafft i'r Ymgynghoriad, a chefnogi penderfyniad y Cyngor i anghytuno gyda'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar ei fwriad i ail-gydbwyso gofal a chymorth yng Nghymru, ac mae wedi gofyn am sylwadau ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i wireddu'r weledigaeth a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

2.2 Bydd yr ymateb yn cael ei ystyried wrth ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn y maes hwn.

### 3. CYFLWYNIAD

3.1 Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw ail-gydbwyso'r maes gofal a chymorth er mwyn darparu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r Papur Gwyn yn diffinio 'ail-gydbwyso' yn fras fel cyfres o ddisgrifiadau o'r newid yr ydym am ei weld yn y system.

3.2 Mae gweledigaeth y Papur Gwyn yn cyd-fynd yn llwyr â'r weledigaeth yr ydym eisoes yn ceisio ei gwireddu yma yng Ngwynedd, felly mae'r weledigaeth sydd yn cael ei hamlinellu yma i'w chroesawu.

3.3 Dyma brif agweddau'r weledigaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Papur:

- Symud i ffwrdd o ffocws ar arian o fewn y farchnad gofal tuag at ansawdd a gwerth
- Comisiynu gwasanaethau gyda'r ffocws ar ganlyniadau
- Datblygu integreiddio drwy leihau rhwystrau i gynllunio a darparu ar y cyd
- Cyd-gynhyrchu canlyniadau gyda phobl
- Gwell rheolaeth o'r farchnad gofal
- Symud i ffwrdd o ffocws sefydliadol tuag at weithio mewn partneriaeth fwy effeithiol

3.4 Serch hyn, mae'r cynigion sydd yn cael eu cynnig o fewn y Papur Gwyn yn wahanol iawn i'r cynigion y byddem yn eu cefnogi fel ffordd o gyflawni'r weledigaeth hon.

Dyma'r prif faterion mae'r Papur Gwyn yn cynnig eu newid:

- Creu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal i blant ac oedolion a fyddai'n gosod methodoleg ffioedd, prosesau comisiynu safonol a chynyddu tryloywder perfformiad
- Gwella cynllunio rhanbarthol ymhellach, gyda chyd-gomisiynu ar draws iechyd a gofal
- Cryfhau sefydliadau rhanbarthol er mwyn caniatáu mwy o integreiddio a gweithredu rhwng gofal cymdeithasol a'i bartneriaid fel y gall ganiatáu ffocws ar wasanaethau ataliol
- Gwell sylfaen i fabwysiadu polisïau hirdymor gan gynnwys gwell cyflogau ac amodau a thelerau i'r gweithlu
- Lleihau effaith amgylcheddol drwy dorri allyriadau anuniongyrchol drwy gaffael yn fwy effeithiol
- Sefydlu Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol fyddai'n cael trosolwg o sefydlogrwydd y farchnad gofal a byddai'n gallu gyrru polisïau cenedlaethol

3.5 O ran y newid uchod i gryfhau y "<u>sefydliad rhanbarthol</u>", amlinellir y bwriad i sicrhau bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mwy o arfau yn ei arlwy i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'n well.

Dyma'r newid sydd gerbron:

- Sefydlu Byrddau Partneriaeth fel endidau corfforaethol cyfreithiol
- Y gallu gan y Byrddau hyn i gyflogi staff yn uniongyrchol
- Y gallu gan y Byrddau hyn i ddal cyllidebau eu hunain
- Gweithredu comisiynu ar y cyd gydag iechyd a gofal eu hunain
- Sicrhau trefniadau llywodraethu clir ar gyfer materion o atebolrwydd ar y cyd am benderfyniadau gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd o ran cronfeydd cyfun a chomisiynu ar y cyd
- Sefydlu a dal cyllidebau integredig ar gyfer darparu gwasanaethau integredig ar ôl troed rhanbarthol
- Sefydlu cylch a fframwaith cynllunio a monitro perfformiad o gwmpas y cylch 5 mlynedd o ddata ac asesiad poblogaeth
- Byddai'r Byrddau Rhanbarthol yn cael eu harchwilio ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ran eu heffeithiolrwydd yn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth, cronfeydd cyfun a chomisiynu ar y cyd.

- Y Byrddau Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i barhau i gael swyddogaethau sydd yn cyd-fynd, ond nid yw'n cau allan ymestyn y swyddogaeth i "CJCs" ar gyfer gofal cymdeithasol.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Mae gennym bryderon am sawl agwedd a chyfeiriad o fewn y Papur Gwyn hwn, ac nid ydym yn fodlon cefnogi'r cynigion. Ar yr olwg gyntaf, oherwydd bod y weledigaeth yn debyg iawn i'r weledigaeth rydym eisoes yn ceisio ei chyflawni yma yng Ngwynedd, mae bwriad y Llywodraeth yn ymddangos yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

4.2 Fodd bynnag, o ystyried y cynnwys manwl yn fwy gofalus mae'r cynigion yn amlwg yn ein symud ymhellach oddi wrth ein gweledigaeth ni yma yng Ngwynedd i integreiddio mwy yn lleol ac i fod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd yn bwysig i unigolion.

4.3 Mae yna ddiffyg manylder hefyd o fewn y Papur Gwyn am beth yn union sydd o dan sylw gyda rhai o'r cynigion sydd yn ei wneud yn anodd iawn i gynnig barn os bydd y newid yn newid cadarnhaol i bobl Gwynedd neu beidio.

4.4 Yn ogystal ag ymateb i'r cwestiynau sydd wedi eu gosod fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn cynnig ein bod hefyd yn llunio ymateb drafft i'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fyddai'n cynnwys y pwyntiau isod:

4.4.1 Yn gyntaf oll, mae Llywodraeth Cymru i'w llongyfarch am yr amlinelliad o weledigaeth gref oddi fewn y Papur Gwyn. Mae'r weledigaeth ei hun i'w chroesawu a'i chanmol, gan ei bod yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn cyfoethogi ansawdd gofal a chymorth. Rydym yn cytuno'n llwyr fod angen canolbwyntio ar ganlyniadau i'r unigolyn ynghyd ag ansawdd ein cefnogaeth a darpariaethau yn hytrach nag arian, a chroesawn hefyd y weledigaeth o gadw trefniadau'n syml fel y gallwn gyflawni'n effeithiol i'n trigolion.

4.4.2 Fodd bynnag, **<u>nid ydym yn cydweld â</u>** sut y cynigir gweithredu'r weledigaeth.

4.4.3 Rydym yn wirioneddol credu bod y camau gweithredu a gynigir yn y Papur Gwyn yn mynd â ni ymhellach oddi wrth y weledigaeth a amlinellir. Mae rhagdybiaethau mawr yn cael eu gwneud o ran ein trefniadau presennol, sydd yn anffodus yn aml yn anghywir. Nid ydym chwaith yn credu bod cynyddu'r lefel o weithio'n rhanbarthol a, thrwy hynny, symud y drefniadaeth ymhellach i ffwrdd o'r lefel leol, yn mynd i ddatrys na symleiddio unrhyw beth. Y gwirionedd yw bod hyn am ychwanegu haen o fiwrocratiaeth a chymhlethdod, a drwy hynny gall ond effeithio'n negyddol ar unigolion yn lleol.

4.4.4 Drwy sefydlu corff rhanbarthol arall fel corff cyfreithiol ar wahân, fel y nodir yn y Papur Gwyn, byddai hyn yn arwain at erydiad pellach mewn democratiaeth leol. Mae corff o'r fath y. mynd i fod angen ei drefniadau a fframwaith llywodraethu penodol fydd yn ychwanegu at gost rhedeg a biwocratiaeth. Mae'n deg nodi hefyd fod hyn yn ychwanegol at sefyldu CBC's sydd eisoes yn ymddnagos yn feichus ac y awgrymu y bydd ystod o drefniadau rhanbarthol ad- hoc yn bodoli.

4.4.5 Nid oes chwaith digon, os o gwbl, o groesgyfeirio at yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn Cymru Iachach. Mae sôn yn y ddogfen am wella'r system iechyd a gofal ynghyd â gweithio fel un, a hynny drwy <u>integreiddio'n lleol,</u> yn ogystal â cheisio canolbwyntio ar y materion sydd y tu ôl i iechyd a llesiant unigolion. Ond eto mae'r Papur Gwyn yn ymddangos yn anwybyddu hyn ac yn gweld rhanbartholi fel yr ateb i symleiddio gwaith ac i gynaliadwyedd y sector gofal.

4.4.6 Fel Cyngor, rydym wedi bod yn gweithio'n integredig ar lefel leol ers rhai blynyddoedd bellach, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Trydydd Sector. Enghraifft dda o'r gweithio integredig hwn yw ein timau adnoddau cymunedol, sydd yn cael ei gyfeirio yn lleol gennym weithiau fel ein "prosiect Alltwen" neu "brosiect Ffordd Gwynedd".

Yn y gwaith hwn, mae gennym wybodaeth ac adborth sydd yn dystiolaeth gref bod integreiddio yn lleol yn gweithio, a hynny o ran sut mae canlyniadau i bobl yn gwella. Mae ein profiad yn dangos yn glir mai ar y lefel leol yma mae integreiddio yn gweithio orau.

Yn ogystal, ar y lefel yma mae modd symleiddio prosesau gwaith ac osgoi rhwystrau gan arwain yn y pendraw at wasanaeth gwell i'r unigolyn.

4.4.7 Mae'r ffaith bod gwasanaethau y cyfeirir atynt yn y Papur Gwyn yn cael eu gweld fel cefnogaeth i'w prynu yn unig hefyd yn ffordd draddodiadol o ystyried y sector erbyn hyn.

Rydym ers blynyddoedd bellach yn ceisio dod â'n darpariaethau gofal ni yng Ngwynedd yn rhan o'r arlwy o gefnogaeth y mae unigolion ei angen, gan geisio cynnwys darparwyr yn y gefnogaeth ar lefel leol iawn. Drwy geisio creu cyfundrefn ranbarthol a chronni adnoddau yn rhanbarthol bydd y gwaith gwych yma yn cael ei golli.

Ar ben y ffaith y byddai hyn yn gam sylweddol yn ôl, byddai'r cyfundrefnau rhanbarthol hyn yn debygol iawn o fod yn ddrudfawr i'w rhedeg a'u gweinyddu, a byddai'n llawer gwell gennym fel Cyngor i'r arian hynny cael ei wario ar ein trigolion yn hytrach nag ar gyfundrefnau rhanbarthol trwsgl.

4.4.8 Er bod cyfeiriad yn y Papur Gwyn at y maes plant, rydym yn tybio bod y cynigion yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r maes oedolion yn unig ac, unwaith eto, mae diffyg dealltwriaeth mai yn lleol y mae'r datrysiadau a'r gwaith o weithio'n integredig yn mynd i lwyddo ar gyfer y maes plant yn ogystal.

4.4.9 Nid ydym yn cytuno bod gweithio fwy fyth yn rhanbarthol yn y maes iechyd a gofal yn mynd i roi'r canlyniadau sydd wedi eu gosod allan o fewn y weledigaeth.

Mae ein profiad yn lleol yn dangos yn glir mai canolbwyntio ar weithio'n lleol sydd ei angen, ac mae'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn y gogledd wedi rhannu ei hun yn rhannau llai, er mwyn gweithredu'n fwy effeithiol, yn dystiolaeth gref iawn o hyn.

4.4.10 Mae sôn yn y Papur Gwyn bod angen cyflogau teg i ddarparwyr gofal, a chytunwn yn llwyr gyda hyn, ond mae diffyg mawr o fewn y Papur Gwyn sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni.

Yn sicr ni fyddai cronni cyllidebau yn rhanbarthol yn cyflawni hyn ac mae angen deall yn fwy sut y byddai'r Llywodraeth yn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael eu hariannu'n briodol fel bod modd i hyn ddigwydd. Mae angen llawer fwy o fanylder ac esboniad am sut y byddwn yn ariannu'r cyflogau hyn.

4.4.11 Ni welwn unrhyw gyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn y cynigion o fewn y Papur Gwyn, sy'n tanseilio ymdrechion cadarn fframwaith strategol Mwy na Geiriau gan Lywodraeth Cymru i gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg i gleifion mewn gosodiadau gofal fel rhan annatod o'r gofal a ddarperir iddynt. Mae hyn yn bryder i ni fel Cyngor, yn enwedig o ystyried demograffeg Gymraeg ein sir. Gall gweithredu'n rhanbarthol danseilio llawer o'r gwaith sydd yn digwydd yn lleol o ran ymateb i'r gofynion ieithyddol lleol.

4.4.12 Mae gennym bryderon mawr am sawl agwedd o fewn y Papur Gwyn hwn, ac nid ydym yn fodlon cefnogi'r cynigion. Ar yr olwg gyntaf, mae'n hawdd darllen y weledigaeth a chymryd yn ganiataol bod y Llywodraeth yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ond, mewn gwirionedd mae'r cynnwys manwl yn ein symud ymhellach oddi wrth ein gweledigaeth ni yma yng Ngwynedd i integreiddio mwy yn lleol ac i fod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd yn bwysig i unigolion.

4.5 Felly rydym am ofyn i Lywodraeth Cymru ystyried ein sylwadau, o ran ein hymateb cyffredinol a hefyd ein hymateb i'r cwestiynau gosod, yn ofalus ac i ailystyried y bwriadau o fewn y Papur Gwyn.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Gofynnir i Gyngor Gwynedd gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 6 Ebrill 2021.

## 6. Barn y Swyddogion Statudol:

### i) Y Swyddog Monitro:

Fel y nodir yn yr adroddiad mae'r Papur Gwyn yn cynnig datrysiadau sydd ar y naill llaw i'w coresawy ond gyda elfenau sydd yn codi cwestiynau eithaf sylfaneol am eu amcan a chyfeiriad.

### ii) Y Pennaeth Cyllid:

Rwy'n cytuno gydag awduron yr adroddiad 'ymateb' yma fod peryglon gyda'r cynigion sy'n y Papur Gwyn i gyd-gomisiynu yn rhanbarthol ar draws iechyd a gofal. Byddai anfanteision maint a risg o ddyblygu costau rheolaethol gyda "sefydliad rhanbarthol" rhy fawr yn symud trefniadau ymhellach i ffwrdd o'r lefel leol.

Ymhellach, gyda "chronfeydd cyfun" rhanbarthol (geiriau sy'n ymddangos droeon yn y Papur Gwyn), daw risg o diffyg atebolrwydd am wariant sylweddol iawn, a tebygolrwydd o fethu rheoli'n ariannol drwy 'gam-briodoli costau'. Byddai'n llawer haws cadw rheolaeth ariannol wrth weithio'n integredig ar lefel leol, felly rwy'n argyhoeddedig byddai gorfodi cronfeydd cyfun rhanbarthol yn wrth gynhyrchiol.